Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

| POLISI DERBYNIADAU IAITH | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran** | Partneriaethau Rhyngwladol | | |
| **Awdur** | Dirprwy Is-Ganghellor (Partneriaethau – DU a Rhyngwladol) / Rheolwr Derbyn Myfyrwyr Rhyngwladol | | |
| **Awdurdodwyd Gan:** | Bwrdd Academaidd | | |
| **Gweithredwyd Gan:** | Partneriaethau / Derbyniadau Rhyngwladol | | |
| **Polisi/Strategaeth/Gweithdrefn a Ddisodlir:** | Polisi Iaith Saesneg (fersiwn 1.4) | | |
| **Rhif y Fersiwn:** | 3 | **Pwyllgor Cymeradwyo:** | Bwrdd Academaidd |
| **Dyddiad cymeradwyo:** | Mehefin 2022 | **Rhif Cofnod:** | 21.096 |
| **Statws:** | Wedi ei gymeradwyo | **Dyddiad Gweithredu:** | Medi 2022 |
| **Cyfnod cymeradwyo:** | 3 blynedd | **Dyddiad Adolygu:** | Gorffennaf 2025 |
| Rwyf wedi cynnal prawf sgrinio asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb i helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu ac i hyrwyddo cydraddoldeb. | | | Do |
| Rwyf wedi ystyried effaith y Polisi/Strategaeth/Gweithdrefn (dilëwch fel sy'n briodol) ar yr iaith Gymraeg a darpariaeth Gymraeg yn y Brifysgol. | | | Do |

**CWMPAS**

1.1. Mae’r polisi hwn yn nodi gofynion y Brifysgol o ran mynediad i fyfyrwyr ddangos bod ganddynt safon ofynnol o hyfedredd ieithyddol. Mae hyn yn berthnasol i bob myfyriwr sy’n astudio am ddyfarniad, gan gynnwys y rheiny sy’n astudio â phartneriaid.

**DIFFINIADAU**

2.1. Defnyddir y diffiniadau a ganlyn o fewn cyd-destun y polisi hwn a’r Atodiad cysylltiedig:

| | |
|---|---|
| **UKVI** | Is-adran Fisâu a Mewnfudo y DU o’r Swyddfa Gartref, sy’n gyfrifol am system fisâu y DU. |

| | |
|---|---|
| **Cyn-sesiynol ('Pre-sessional')** | Cwrs a gyflenwir cyn prif raglen astudio'r myfyriwr i gynyddu ei sgiliau a'i wybodaeth o'r iaith Saesneg, er mwyn bodloni gofynion mynediad y Brifysgol. |
| **Yn ystod rhaglen astudio ('In-sessional')** | Cwrs a gyflenwir ochr yn ochr â phrif raglen astudio myfyriwr. |
| **IELTS** | Y System Brofi Ryngwladol ar gyfer yr Iaith Saesneg. Yr IELTS y cyfeirir ati trwy gydol y polisi hwn yw'r IELTS at Ddibenion Academaidd, oni nodir fel arall. |
| **SELT** | Y Prawf Iaith Saesneg Diogel a gymeradwyir gan yr UKVI. |
| **GELT** | Prawf Iaith Saesneg Prifysgol Wrecsam |

**CYFLWYNIAD**

3.1. Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r gofynion mynediad gofynnol o ran iaith i fyfyrwyr sy'n astudio ym Mhrifysgol Wrecsam.

3.2. Mae'n ofynnol i'r Brifysgol gyflawni rhwymedigaethau statudol o ran mewnfudo wrth recriwtio myfyrwyr. Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r modd y bydd y Brifysgol yn cyflawni'r gofynion hynny o ran safonau ieithyddol.

3.3 Adolygir y polisi hwn yn flynyddol, a chaiff rhestr y Brifysgol o brofion a chymwysterau iaith derbyniol ei hadolygu'n barhaus gan y Gweithgor Datblygu Rhyngwladol.

3.4 Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ddiwygio ei gofynion ieithyddol y tu hwnt i'r rheiny a nodir yn y Polisi hwn, er mwyn cadw at newidiadau rheoleiddiol fel y maent yn codi.

**GOFYNIAD MYNEDIAD ACADEMAIDD O RAN IAITH**

4.1 Mae'r Brifysgol yn gosod gofyniad mynediad academaidd craidd o ran iaith ar gyfer pob myfyriwr sy'n astudio tuag at ddyfarniad Addysg Uwch:

> Dylai sgiliau ieithyddol fod o safon briodol i sicrhau bod myfyrwyr yn gallu ymgysylltu, cyfranogi a chyflawni ar lefel eu cwrs astudio yn yr iaith/ieithoedd a ddefnyddir i gyflenwi ac asesu'r cwrs hwnnw. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i bob myfyriwr Prifysgol sy'n astudio ar gyfer dyfarniad, gan gynnwys y rheiny sy'n astudio â phartneriaid.

**GOFYNION MEWNFUDO O RAN FISÂU MYFYRWYR**

5.1 O ran myfyrwyr sydd angen fisa astudio tymor byr i'w caniatáu i astudio â'r Brifysgol ar gwrs Iaith Saesneg dwys am gyfnod o rhwng 6 a 11 mis, dylent gyfeirio at y gofynion ieithyddol sydd ar gael ar: https://wrexham.ac.uk/international-students/english-language-requirements/

5.2 O ran myfyrwyr sy'n astudio ar raglenni am gyfnod o lai na 6 mis, sy'n gwneud cais am fisa ymwelydd i gael mynediad i'r DU, neu ymgeiswyr sy'n cwblhau astudiaethau academaidd nad ydynt yn dwyn credydau, ar wahân i wersi Saesneg, mae'n ofynnol iddynt ddangos gallu ym mhob un o'r meysydd sgiliau (gwrando, darllen, ysgrifennu a siarad) sy'n cyfateb i B2 yn y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin (CEFR).

**GOFYNION MEWNFUDO O RAN FISÂU MYFYRWYR**

6.1 O ran myfyrwyr sydd angen Fisa Myfyriwr, dylai gofynion mynediad y Brifysgol o ran yr iaith Saesneg gydymffurfio neu fynd y tu hwnt i unrhyw ofynion statudol gofynnol perthnasol o ran yr iaith Saesneg, yn ôl Fisâu a Mewnfudo y DU (UKVI), ei olynwyr, a chyrff perthnasol eraill;

- O ran myfyrwyr sy'n fewnfudwyr, sy'n dod i mewn i'r DU i astudio ar lefel gradd, mae'n ofynnol iddynt ddangos gallu ym mhob un o'r meysydd sgiliau (gwrando, darllen, ysgrifennu a siarad) sy'n cyfateb i B2 yn y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd: Dysgu, Addysgu ac Asesu.

6.2 O ran ymgeiswyr sy'n gwneud cais am gyrsiau sy'n is na lefel gradd, ynghyd â chyrsiau Saesneg cyn-sesiynol, rhaid iddynt fod wedi llwyddo mewn Prawf Iaith Saesneg Diogel (SELT) a gymeradwyir gan UKVI. Caiff myfyrwyr eu heithrio o'r gofyniad hwn os ydynt yn wladolyn o wlad lle mae'r mwyafrif yn siarad Saesneg (Gweler 6.3.1).

6.3 O ran ymgeiswyr am gymwysterau gradd neu ddyfarniadau addysg uwch eraill, rhaid iddynt fodloni o leiaf un o'r meini prawf a ganlyn ar gyfer mynediad academaidd, o 6.3.1 – 6.3.5 isod.

6.3.1 O ran gwladolion "gwledydd lle mae'r mwyafrif yn siarad Saesneg" (fel y diffinnir gan UKVI: https://www.gov.uk/student-visa/knowledge-of-english) mae angen meddu ar gymhwyster Iaith Saesneg Lefel 2 neu gyfatebol.

6.3.2 Meddu ar Brawf Iaith Saesneg Diogel (SELT) a gymeradwyir gan UKVI, sy'n cyflawni'r meini prawf yn Nhabl 1. Mae'r rhestr gyfredol o brofion iaith, canolfannau profi a chyfnodau dilysrwydd ar gael yn https://www.gov.uk/guidance/prove-your-english-language-abilities-with-a-secure-english-language-test-selt.

Tabl 1: Safonau mynediad gofynnol o ran Saesneg yn ôl lefel astudio

| **Lefel astudio** | **Sgôr SELT cyfanredol (IELTS neu gyfatebol)** |
|---|---|
| Cyrsiau Gradd neu Ôl-radd (a addysgir) gan gynnwys MBA | 6.0* |
| Ôl-radd (ymchwil) | 6.5* |

* Heb unrhyw sgôr sgiliau'n 0.5 yn is na'r sgôr cyffredinol

6.3.3 Llwyddiant o ran cyflawni sgôr priodol mewn Prawf Iaith Saesneg Prifysgol Wrecsam (GELT), fel y nodir yn nhabl 2 isod:

Tabl 2: Safonau mynediad gofynnol o ran Saesneg yn ôl lefel astudio

| **Lefel astudio** | **Sgôr GELT cyfanredol** |
|---|---|
| Cyrsiau Gradd neu Ôl-radd (a addysgir) gan gynnwys MBA | 6.0* |
| Ôl-radd (ymchwil) | 6.5* |

* Heb unrhyw sgôr sgiliau'n 0.5 yn is na'r sgôr cyffredinol

6.3.4 Llwyddiant o ran cyflawni prawf iaith Saesneg amgen priodol sy'n cyfateb i lefel B2 yn y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd (CEFR) (gweler https://wrexham.ac.uk/international-students/english-language-requirements/)

6.3.5 Llwyddiant o ran cyflawni cymhwyster sy'n cyfateb i radd baglor (neu ddyfarniad uwch), a ddilynir trwy gyfrwng y Saesneg yn unig, naill ai yn y DU neu mewn gwlad lle mae'r mwyafrif yn siarad Saesneg (gweler 6.3.1), neu yn rhywle arall, fel arfer gyda dosbarthiad 2:2 neu

uwch, a gyflawnwyd fel arfer nid mwy na phum mlynedd cyn y dyddiad mynediad arfaethedig i'r Brifysgol.

.

6.4 O ran ymgeiswyr nad ydynt yn cyflawni unrhyw rai o'r gofynion mynediad academaidd a amlinellir yn 6.3.1 – 6.3.5, gellir eu hystyried ar gyfer cael mynediad i raglen gyn-sesiynol, fel y nodir isod:

**CYRSIAU CYN-SESIYNOL**

6.4.1 O ran ymgeiswyr nad ydynt yn cyflawni'r gofynion a amlinellir uchod, ond a chanddynt SELT hyd at B2, gellir cynnig CAS (Cadarnhad Derbyn ar gyfer Astudiaethau) unigol ar gyfer cwrs cyn-sesiynol sy'n para llai na 3 mis, ynghyd â phrif raglen gradd, yn amodol ar lwyddo i gwblhau rhaglen gyn-sesiynol briodol, fel y nodir isod (rhaid i'r brif raglen gradd gychwyn o fewn 1 mis i'r cwrs cyn-sesiynol):

| Gofyniad ar gyfer mynediad i'r rhaglen | Sgôr SELT cychwynnol a gymeradwyir gan UKVI | Cwrs Cyn-sesiynol Priodol |
|---|---|---|
| IELTS 6.0** | IELTS 5.5 (heb unrhyw sgôr sgiliau'n is na 5.5)* | 200 awr (125 awr a addysgir) – 20 credyd |
| IELTS 6.5** | IELTS 5.5 (heb unrhyw sgôr sgiliau'n is na 5.5)* | 400 awr (230 awr a addysgir) – 40 credyd |
| IELTS 6.5** | IELTS 6.0 (heb unrhyw sgôr sgiliau'n is na 5.5) | 200 awr (125 awr a addysgir) – 20 credyd |
| IELTS 6.0*** | IELTS 5.0 (heb unrhyw sgôr sgiliau'n is na 4.5) | 400 awr (230 awr a addysgir) – 40 credyd |
| IELTS 6.0*** | IELTS 5.5 (heb unrhyw sgôr sgiliau'n is na 5.0) | 200 awr (125 awr a addysgir) – 20 credyd |
| IELTS 6.5*** | IELTS 5.5 (heb unrhyw sgôr sgiliau'n is na 5.0) | 400 awr (230 awr a addysgir) – 40 credyd |

* Mae UKVI yn mynnu bod rhaid i'r sgôr sgiliau fod yn 5.5 ym mhob elfen ar gyfer B2.
** O ran myfyrwyr nad ydynt yn llwyddo i gyflawni'r lefel a fynnir yn eu hasesiad GELT, bydd yn ofynnol iddynt gwblhau cwrs Iaith Saesneg yn ystod eu prif raglen astudio nes y byddant yn cyflawni'r sgôr GELT gofynnol.
* O ran ymgeiswyr â B1 nad ydynt yn llwyddo i gyflawni gofyniad y rhaglen o ran eu hasesiad GELT, ni chaniateir iddynt fynd ymlaen i'w prif raglen, fe'u tynnir yn ôl o'u hastudiaethau a chaiff UKVI ei hysbysu.

6.4.2 O ran ymgeiswyr nad ydynt yn cyflawni'r gofynion a amlinellir uchod, ond a chanddynt SELT ar lefel **B1** lle mae'r sgôr cyffredinol yn IELTS 5.0 neu lai, cynigir CAS ar wahân iddynt ar gyfer y cwrs cyn-sesiynol. Bydd myfyrwyr yn gymwys i gael ail CAS ar gyfer eu prif raglen gradd ar ôl llwyddo i gwblhau cwrs Saesneg cyn-sesiynol.

O ran myfyrwyr nad ydynt yn llwyddo i gwblhau'r asesiad GELT gofynnol a nodir isod, ni fyddant yn gymwys i fynd ymlaen i'w prif raglen gradd. Rhaid i fyfyrwyr sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â thelerau eu caniatâd mewnfudo bob amser, a'u cyfrifoldeb nhw yw sicrhau eu bod yn ymgeisio am eu hail CAS a fisa o fewn yr amserlenni statudol a nodir gan UKVI.

| Gofyniad ar gyfer mynediad i'r rhaglen | Sgôr SELT cychwynnol a gymeradwyir gan UKVI | Cwrs Cyn-sesiynol Priodol |
|---|---|---|
| IELTS 6.0* | IELTS 4.0 (heb unrhyw sgôr sgiliau'n is na 4.0) | 1000 awr (690 awr a addysgir) – 100 credyd |
| IELTS 6.0* | IELTS 4.5 (heb unrhyw sgôr sgiliau'n is na 4.0) | 600 awr (414 awr a addysgir) – 60 credyd |

| | | |
|---|---|---|
| IELTS 6.5* | IELTS 4.5 (heb unrhyw sgôr sgiliau'n is na 4.0) | 1000 awr (690 awr a addysgir) – 100 credyd |
| IELTS 6.5* | IELTS 5.0 (heb unrhyw sgôr sgiliau'n is na 4.5) | 600 awr (414 awr a addysgir) – 60 credyd |

* Yn addas i fyfyrwyr sydd angen cwrs cyn-sesiynol sy'n para mwy na 3 mis, y bydd eu cwrs cyn-sesiynol yn gorffen dros gyfnod o 1 mis cyn eu prif raglen astudio, neu nad ydynt fel arall yn cyflawni'r amodau ar gyfer CAS unigol, fel y nodir yn 6.4.1

**ESTYNIADAU I FISÂU**

6.5 Cyflwynir CASau ar gyfer y cyfnod astudio disgwyliedig. O ran myfyrwyr sydd angen CAS newydd ar gyfer estyniad i fisa i barhau â'r un rhaglen o ganlyniad i ailsefyll arholiadau, ail-wneud blwyddyn, gohirio'r cwrs neu unrhyw reswm arall, byddant yn ddarostyngedig i holl ofynion y polisi hwn.

**CYFNODAU DILYSRWYDD**

6.6 Fel arfer, ni ddylid ond ystyried canlyniadau Profion Iaith Saesneg a gymerwyd ddim mwy na dwy flynedd o ddyddiad arfaethedig derbyn myfyrwyr i'r Brifysgol. Os aethpwyd heibio'r amser hwn, mae'n rhaid i'r ymgeisydd allu dangos bod ei allu o ran yr iaith Saesneg yn cwrdd â'r safon ofynnol trwy gyflawni'r safonau a ddisgrifir o dan 6.3.

6.7 Os aethpwyd heibio'r cyfnod dilysrwydd a nodir yn 6.3.5, rhaid i'r ymgeisydd ddangos lefel briodol o ran ei allu yn yr iaith Saesneg trwy gyflawni'r safonau a ddisgrifir o dan 6.3.

**HAWL Y BRIFYSGOL**

6.8 Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ofyn i unrhyw ymgeisydd sydd angen Fisa Myfyriwr gwblhau SELT neu GELT i ddangos ei fod yn cyflawni'r safon briodol o ran iaith.

**GRADDAU YMCHWIL**

6.9 Yn ychwanegol i'r gofynion a nodir uchod, o ran y gofynion mynediad ar gyfer graddau ymchwil o ran yr iaith Saesneg, byddant hefyd yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir gan y corff dyfarnu graddau ymchwil perthnasol.

**GOFYNION PENODOL I RAGLENNI UNIGOL**

6.10 Nodir uchod yr hyn sy'n ofynnol ar gyfer derbyn myfyrwyr ar raglenni astudio. Caiff y gofynion o ran yr iaith Saesneg eu hadolygu'n flynyddol gan y Cyfadrannau. Gall Cyfadrannau gyflwyno cynigion i'r Bwrdd Academaidd ar gyfer gofynion sy'n benodol i raglenni astudio unigol. Lle nodwyd bod gofynion ychwanegol neu fod cynnydd yn y gofynion mynediad o ran yr iaith Saesneg, caiff y rhain eu hamlinellu'n glir ar wefan y Brifysgol, yn y llythyr cynnig, neu mewn deunyddiau marchnata perthnasol eraill.